Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Cymorth ariannol i fyfyrwyr mewn addysg bellach 2025-26
## - canllaw i etholwyr

Ar gyfer mynediad ym mis Medi 2025



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

X: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Cylchlythyr**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Cymorth ariannol i fyfyrwyr mewn addysg bellach 2025-26

## - canllaw i etholwyr

Ar gyfer mynediad ym mis Medi 2025

**Awdur:**
Dr. Thomas Morris

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ... 1**

**2. Ffioedd dysgu ... 2**

**3. Cyllid i fyfyrwyr 16-18 oed ... 3**

Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA) ... 3

**4. Cyllid i fyfyrwyr 19 oed a hŷn ... 6**

Grant Dysgu Llywodraeth Cymru Addysg Bellach (GDLlC AB) ... 6

**5. Cronfa ariannol wrth gefn ... 8**

**6. Gwybodaeth am gymorth ariannol addysg bellach ... 9**

**7. Mathau eraill o gymorth ariannol ... 10**

Gwobr Datblygu Ymddiriedolaeth y Brenin ... 10

ReAct+ ... 10

Cyfrifon Dysgu Personol ... 10

Gofal plant am ddim ... 11

Teithio am ddim a theithio rhad ... 11

Prentisiaethau ... 11

Cronfa Family Action Barclays ... 12

Grant Ymddiriedolaeth Thomas Wall ... 12

# 1. Cyflwyniad

Mae'r canllaw hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y mathau gwahanol o gymorth ariannol a allai fod ar gael i chi os ydych yn dilyn cwrs addysg bellach amser llawn neu ran-amser yng Nghymru, neu'n bwriadu gwneud hynny, o fis Medi 2025.

Ystyr addysg bellach yn aml yw addysg i'r rhai rhwng 16 a 18 oed, ond gall oedolion ddilyn cyrsiau addysg bellach hefyd. Caiff ei darparu drwy golegau lleol a'r chweched dosbarth mewn ysgolion fel arfer.

Mae gan rai ardaloedd awdurdodau lleol gymysgedd o ysgolion â chweched dosbarth a cholegau lleol, a dim ond colegau sydd gan eraill. Mae addysg bellach yn wahanol i addysg uwch, ond mae'n bosibl y bydd eich coleg lleol yn cynnig cyrsiau addysg bellach ac addysg uwch. Bydd y coleg yn egluro'r gwahaniaeth rhwng y ddau fath pan fyddwch yn edrych ar y cyrsiau.

Canllaw cyffredinol yw'r ddogfen hon ac ni fydd yn disgrifio sefyllfa pawb. Dylech holi **Cyllid Myfyrwyr Cymru** a/neu eich coleg neu eich chweched dosbarth am gyngor ar eich sefyllfa bersonol.

Gall **Gyrfa Cymru** roi rhagor o wybodaeth i chi am gyllid i fyfyrwyr sydd ag anawsterau dysgu ac anableddau.

*Ymwadiad: Mae pobl yn holi Ymchwil y Senedd yn rheolaidd ynghylch cyllid myfyrwyr ac mae'r canllaw hwylus hwn yn nodi gwybodaeth am rai o'r cwestiynau mwyaf cyffredin. Ni fwriedir iddo fod yn ganllaw cynhwysfawr a dylech bob amser ofyn am gyngor gan Cyllid Myfyrwyr Cymru neu weithiwr proffesiynol cymwysedig sydd wedi'i deilwra i'ch sefyllfa unigol.*

# 2. Ffioedd dysgu

Os ydych chi rhwng 16 a 18 oed, nid oes rhaid i chi dalu ffioedd dysgu fel arfer. Dyma'r ffioedd sy'n mynd tuag at gostau dysgu'r cwrs ei hun.

Os ydych yn 19 oed neu'n hŷn, **mae'n bosibl y bydd rhaid i chi dalu ffioedd dysgu ar gyfer coleg addysg bellach**. Gallwch holi'r man lle'r ydych yn astudio, neu'n ystyried astudio, i weld beth yw'r sefyllfa. Mae'n bosibl y gall gynnig ffioedd dysgu gostyngedig i chi, neu ddim ffioedd o gwbl, mewn rhai sefyllfaoedd, er enghraifft os oes gennych chi neu eich teulu incwm isel, os oes gennych anabledd neu os ydych yn cael budd-daliadau.

Os ydych yn cael budd-daliadau, mae'n bosibl y gallwch barhau i'w cael tra byddwch yn astudio. Gall y rheolau ynghylch hyn fod yn gymhleth iawn, felly dylech holi eich Canolfan Waith leol neu siarad â'r Adran Gwaith a Phensiynau a all roi cyngor i chi. Mae rhestr o **rifau llinellau cymorth** ar gael ar wefan Llywodraeth y DU.

# 3. Cyllid i fyfyrwyr 16-18 oed

## Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA)

Mae'r LCA ar gyfer dysgwyr amser llawn (o leiaf 12 awr yr wythnos) o aelwydydd incwm isel, sydd mewn addysg bellach, ac sydd rhwng 16 a 18 oed ac yn byw yng Nghymru.

Er mwyn bod yn gymwys i gael LCA, **mae angen i chi fyw yng Nghymru, ond nid oes angen i chi astudio yng Nghymru**. Rhaid i'ch coleg neu eich ysgol fod yn cymryd rhan yn y cynllun, a rhaid i'r cwrs rydych yn ei ddilyn fod yn gymwys. Gall eich ysgol neu goleg ddweud wrthych a yw'r cwrs rydych eisiau ei ddilyn yn gymwys.

Mae gofynion o ran cenedligrwydd hefyd. Gallwch wneud cais:

- os ydych yn wladolyn y DU neu'n ddinesydd Iwerddon neu os oes gennych statws preswylydd sefydlog;
- os byddwch yn byw yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf eich cwrs; ac
- os ydych wedi bod yn byw yn y DU a'r Ynysoedd am dair blynedd cyn dechrau eich cwrs.

Os nad yw'r rhain yn berthnasol i chi, efallai y byddwch yn dal i fod yn gymwys i gael LCA os ydych yn byw yng Nghymru. Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru yn darparu canllaw cenedligrwydd a phreswylio sy'n rhoi rhagor o wybodaeth.

Os ydych yn bodloni'r meini prawf cymhwystra uchod, **efallai y byddwch yn gallu cael hyd at £40 yr wythnos** a fydd yn cael ei dalu bob pythefnos, ond mae hyn yn dibynnu ar incwm eich cartref. Mae dau drothwy incwm cartref, a bydd yr un sy'n berthnasol i chi yn dibynnu ar nifer y dibynyddion (gan gynnwys chi, 'y myfyriwr') yn eich cartref:

| Incwm y cartref | Nifer y plant dibynnol (gan gynnwys y myfyriwr) | Dyfarniad |
|---|---|---|
| £0 - £23,400 | 1 | £40 |
| £23,401+ | 1 | £0 |
| £0 - £25,974 | 2+ | £40 |
| £25,975+ | 1+ | £0 |

Ffynhonnell: **Cyllid Myfyrwyr Cymru**

Os yw incwm eich cartref yn £25,975 neu fwy, ni fyddwch yn gymwys i gael LCA.

Os ydych yn bodloni'r meini prawf i gael eich ystyried yn 'fyfyriwr annibynnol', nad yw'n byw gyda rhiant/rhieni neu warcheidwad/warcheidwaid, bydd eich enillion yn cael eu defnyddio i gyfrif incwm eich cartref. Os ydych yn byw gyda phartner, bydd enillion eich partner hefyd yn cael eu hystyried fel rhan o incwm eich cartref. Gall statws myfyriwr annibynnol gynnwys y canlynol, a bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth os ydych:

- yn berson sy'n gadael gofal;
- yn byw yng ngofal awdurdod lleol neu gyda rhieni maeth;
- yn cael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar Incwm, neu Gredyd Cynhwysol;
- yn gyfrifol am blentyn;
- yn berson ifanc yn y ddalfa; neu
- wedi ymddieithrio oddi wrth eich rhieni.

Nid oes rhaid i fyfyrwyr annibynnol ddarparu gwybodaeth ariannol, ond mae rhaid iddynt anfon tystiolaeth o'u statws. Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru yn darparu canllaw myfyrwyr annibynnol sy'n rhoi rhagor o wybodaeth. Er nad yw'r canllawiau ar gyfer gwneud cais am LCA fel myfyriwr annibynnol yn diffinio beth yw ystyr bod wedi ymddieithrio oddi wrth eich rhieni, mae'r **canllawiau ar gyfer gwneud cais am Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (Addysg Bellach)** yn dweud mai ystyr ymddieithrio yw "nad ydych wedi cael unrhyw gyswllt gyda'ch rhieni ers o leiaf 12 mis". Dylech holi Cyllid Myfyrwyr Cymru am yr union fanylion yng nghyd-destun addysg bellach.

Mae manylion am sut i wneud cais am LCA ar gyfer 2025-26 ar gael ar wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru. Ar ôl i chi gofrestru eich cyfrif, dylai gymryd tua 30 munud i wneud cais. Mae'r ceisiadau bellach ar agor a'r **dyddiad cau ar gyfer ceisiadau ac unrhyw dystiolaeth yw 31 Awst 2026**.

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, mae manylion **cyswllt Cyllid Myfyrwyr Cymru** ar eu gwefan. Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru hefyd wedi cyhoeddi **Llyfr Bach LCA** sy'n rhoi rhagor o wybodaeth ar gyfer 2025-26. Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru

hefyd yn darparu **cyfrifiannell addysg bellach** ryngweithiol i helpu i gyfrifo faint y gallech fod â hawl i'w gael.

Mae gwybodaeth i **rieni, gwarcheidwaid a phartneriaid** hefyd ar gael ar wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru. Mae gwybodaeth am docynnau bws rhatach hefyd ar gael o dan adran 7 o'r canllaw hwn.

# 4. Cyllid i fyfyrwyr 19 oed a hŷn

## Grant Dysgu Llywodraeth Cymru Addysg Bellach (GDLlC AB)

Grant i fyfyrwyr sy'n 19 oed neu'n hŷn ar 1 Medi 2025 yw GDLlC AB. Gan mai grant yw hwn, **nid oes rhaid ei ad-dalu**.

I fod yn gymwys i gael GDLlC AB, rhaid i chi fod yn astudio mewn ysgol neu goleg sy'n cymryd rhan yng nghynllun GDLlC AB. Rhaid i'ch cwrs:

- gynnwys o leiaf 275 o oriau gorfodol yn ystod y flwyddyn academaidd;
- bod mewn ysgol neu goleg sy'n cymryd rhan yn y cynllun; ac
- arwain at gymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol, hyd at a chan gynnwys cymwysterau Lefel 3.

Gall eich ysgol neu goleg ddweud wrthych a yw'r cwrs rydych eisiau ei ddilyn yn gymwys.

Ni fyddwch yn gymwys i gael GDLlC AB os ydych wedi cael y grant hwn o'r blaen drwy astudio cwrs ar yr un lefel â'r cwrs rydych yn gwneud cais ar ei gyfer (neu ar lefel uwch).

Mae gofynion o ran cenedligrwydd hefyd. Gallwch wneud cais:

- os ydych yn wladolyn y DU neu'n ddinesydd Iwerddon neu os oes gennych statws preswylydd sefydlog;
- os byddwch yn byw yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf eich cwrs; ac
- os ydych wedi bod yn byw yn y DU a'r Ynysoedd am dair blynedd cyn dechrau eich cwrs.

Os nad yw'r rhain yn berthnasol i chi, efallai y byddwch yn dal i fod yn gymwys i gael LCA os ydych yn byw yng Nghymru. Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru yn darparu canllaw cenedligrwydd a phreswylio sy'n rhoi rhagor o wybodaeth.

Os ydych yn bodloni'r meini prawf cymhwystra uchod, efallai y byddwch yn gallu cael hyd at £1,919 fel myfyriwr amser llawn (500+ o oriau) neu hyd at £959 fel myfyriwr rhan-amser (275-499 o oriau). Mae'r swm y gallech ei gael yn dibynnu ar incwm eich cartref:

| Incwm blynyddol y cartref | Rhan amser (275-499 o oriau) | Amser llawn (500+ o oriau) |
|---|---|---|
| Hyd at £6,120 | £959 | £1,919 |
| £6,121 - £12,235 | £576 | £959 |
| £12,236 - £18,370 | £384 | £576 |
| £18,371 a mwy | £0 | £0 |

Ffynhonnell: **Cyllid Myfyrwyr Cymru**

At ddiben cael GDLlC AB, ystyrir eich bod yn fyfyriwr annibynnol:

- os ydych yn 25 oed neu'n hŷn;
- os ydych yn gyfrifol am blentyn;
- os ydych wedi'ch cefnogi eich hun yn ariannol am o leiaf dair blynedd;
- os ydych wedi ymddieithrio oddi wrth eich rhieni ers mwy na 12 mis;
- os yw eich rhieni wedi marw;
- os ydych yn briod neu mewn partneriaeth sifil; neu
- os ydych yn 'berson sy'n gadael gofal' sydd wedi bod yng ngofal eich awdurdod lleol rhwng 14 ac 16 oed, yn dibynnu pryd y gwnaethoch ddechrau eich cwrs.

I wneud cais fel myfyriwr annibynnol, mae rhagor o wybodaeth ar gael gan **Cyllid Myfyrwyr Cymru**.

Mae manylion am sut i wneud cais am GDLlC AB 2025-26 ar gael ar **wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru**. Ar ôl i chi gofrestru i greu cyfrif, dylai gymryd tua 30 munud i wneud cais. Mae'r ceisiadau bellach ar agor. **Ar gyfer cyrsiau sy'n dechrau ar 1 Medi 2025, mae angen i chi gyflwyno eich cais erbyn 31 Mai 2026 a chyflwyno unrhyw dystiolaeth sydd ei hangen erbyn 31 Awst 2026**.

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, mae **manylion cyswllt Cyllid Myfyrwyr Cymru** ar eu gwefan. Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru hefyd wedi cyhoeddi **canllaw i GDLlC AB** sy'n rhoi rhagor o wybodaeth ar gyfer 2025-26. Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru hefyd yn darparu **cyfrifiannell addysg bellach** ryngweithiol i helpu i gyfrifo faint y gallech fod â hawl i'w gael.

Mae gwybodaeth i **rieni, gwarcheidwaid a phartneriaid** hefyd ar gael ar wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru.

Mae gwybodaeth am docynnau bws rhatach hefyd ar gael o dan adran 7 o'r canllaw hwn

# 5. Cronfa ariannol wrth gefn

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi arian i golegau yng Nghymru er mwyn iddynt allu helpu myfyrwyr sy'n wynebu anawsterau ariannol, neu sy'n debygol o adael eu haddysg. Mae'r arian hwn yn cael ei roi yn ôl disgresiwn a'r enw a roddir arno yw **Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn**. Mae rhai colegau'n galw'r arian hwn yn Gronfeydd Cymorth i Fyfyrwyr neu'n Gronfeydd Caledi Myfyrwyr.

Gan fod yr arian yn cael ei roi i'r colegau, mae rhwydd hynt iddynt osod eu rheolau manwl eu hunain ar yr amod eu bod yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru. Gall hyn gynnwys costau gofal plant, llyfrau a chostau teithio ynghyd â chostau eraill sydd wedi'u cynnwys yn **erthygl newyddion Llywodraeth Cymru ar y cymorth ariannol sydd ar gael i ddysgwyr a'u teuluoedd**.

Mae'r **canllaw cyllid i ddarparwyr hwn gan Medr** yn disgrifio'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn:

> Mae'r cyllid hwn yn rhoi cymorth ariannol i'r dysgwyr cymwys hynny y gallai ystyriaethau ariannol gyfyngu ar eu mynediad at addysg, neu sy'n wynebu anawsterau ariannol, waeth beth fo'r rheswm am hynny, gan gynnwys anabledd.
>
> Mae sefydliadau'n gweinyddu'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn i'w dysgwyr yn ôl disgresiwn, ac maent yn gyfrifol am ddosbarthu'r cyllid i sicrhau y gellir teilwra cymorth i anghenion y myfyrwyr.

Dylech gysylltu â'ch coleg i gael rhagor o wybodaeth am y Gronfa Ariannol Wrth Gefn. Mae'r lincs i dudalennau cymorth ariannol sefydliadau addysg bellach yn adran 6 yn cynnwys gwybodaeth am y Gronfa Ariannol Wrth Gefn.

# 6. Lincs i wybodaeth am gymorth ariannol mewn sefydliadau addysg bellach

Mae manylion cyswllt sefydliadau addysg bellach ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Gall darllenwyr sy'n edrych ar y fersiwn ar-lein o'r canllaw hwn ddilyn y lincs isod i gael rhagor o wybodaeth am gymorth ariannol i fyfyrwyr ym mhob un o sefydliadau addysg bellach Cymru. Mae rhai o'r tudalennau isod ar y we yn cynnwys rhagor o wybodaeth am gymorth ariannol o dan amgylchiadau penodol.

### Lincs i wybodaeth am gymorth ariannol i fyfyrwyr mewn sefydliadau addysg bellach yng Nghymru:

- **Addysg Oedolion Cymru**;
- **Coleg Penybont**;
- **Coleg Caerdydd a'r Fro**;
- **Coleg Cambria**; (Rhaid dewis yr opsiwn 'Cyllid a chymorth ariannol')
- **Coleg Gwent**;
- **Coleg Ceredigion (Coleg Sir Gâr)**;
- **Coleg y Cymoedd**;
- **Coleg Gŵyr Abertawe**;
- **Grŵp Llandrillo Menai**;
- **Grŵp Colegau NPTC**;
- **Coleg Sir Benfro**;
- **Coleg Catholig Dewi Sant**; ac
- **Y Coleg, Merthyr Tudful**.

# 7. Mathau eraill o gymorth ariannol

Mae'r adran hon yn rhoi rhagor o wybodaeth am gymorth ariannol i'r rhai sy'n dechrau addysg bellach. Nid yw'n rhestru popeth sydd ar gael. Mae rhai sefydliadau addysg bellach yn cynnig bwrsariaethau ac ysgoloriaethau penodol (er enghraifft).

## Gwobr Datblygu Ymddiriedolaeth y Brenin

Mae Gwobr Datblygu Ymddiriedolaeth y Brenin, sef Gwobr Datblygu Ymddiriedolaeth y Tywysog gynt, yn cynnig grantiau bach (£10-£500) i bobl ifanc (16-30 oed) nad ydynt yn gweithio nac yn cael addysg ar hyn o bryd ac y mae angen cymorth ariannol arnynt i gael addysg, cyflogaeth, hyfforddiant neu waith gwirfoddoli strwythuredig. Mae rhagor o wybodaeth am yr hyn y gall Gwobr Datblygu ei gwmpasu a sut i wneud cais ar gael ar **wefan Ymddiriedolaeth y Brenin**.

## ReAct+

Un o gronfeydd Llywodraeth Cymru yw ReAct+, ac mae'n cynnig cymorth grant ar gyfer dysgu galwedigaethol, costau teithio a gofal (gan gynnwys gofal plant) sy'n gysylltiedig â hyfforddiant, i'r rhai sy'n 20 oed neu'n hŷn, sy'n preswylio yng Nghymru ac sydd â hawl i fyw a gweithio yn y DU. I fod yn gymwys i gael y cymorth grant, rhaid i unigolion fod yn 20 oed neu'n hŷn a naill ai:

- wedi cael rhybudd ffurfiol eu bod yn cael eu diswyddo;
- wedi cael eu diswyddo yn ystod y 6 mis diwethaf; neu
- yn gyn-droseddwr neu'n droseddwr sy'n cyflawni dedfryd gymunedol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar **wefan Cymru'n gweithio**.

## Cyfrifon Dysgu Personol

Mae Cyfrifon Dysgu Personol yn darparu cymorth i unigolion sy'n 19 oed neu'n hŷn sy'n byw yng Nghymru, sy'n gyflogedig/ yn ofalwyr amser llawn (â thâl neu heb dâl) ac nad yw eu cyflog sylfaenol yn fwy na £32,371. Gall unrhyw un sy'n bodloni'r meini prawf cymhwystra hyn ar gyfer Cyfrif Dysgu Personol gael cymorth i ddatblygu gyrfa mewn sector blaenoriaeth drwy astudio'n rhan-amser ar gyrsiau penodol ochr yn ochr â'u cyflogaeth bresennol. Mae rhagor o wybodaeth am y math hwn o ddysgu hyblyg sy'n cael ei ariannu'n llawn, sydd ar gael mewn colegau ledled Cymru, ar gael ar **wefan Gyrfa Cymru**.

## Gofal plant am ddim

Gallai rhieni cymwys plant tair a phedair oed fod yn gymwys i gael 30 awr o ofal plant am ddim am hyd at 48 wythnos y flwyddyn drwy Gynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru. Mae rhagor o wybodaeth am y Cynnig Gofal Plant ar gael ar **wefan Llywodraeth Cymru**. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi canllawiau ar y cynnig. Maent yn egluro bod angen i fyfyrwyr addysg bellach, er mwyn bod yn gymwys, **ddarparu tystiolaeth** eu bod wedi'u cofrestru ar gwrs mewn sefydliad addysg bellach, sy'n para o leiaf 10 wythnos.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi **ymrwymo i gynnig 12.5 awr o ofal plant am ddim i bob plentyn dwy oed** erbyn diwedd tymor y Senedd hon. 'Gofal Plant Dechrau'n Deg' yw enw'r cynnig hwn. Mae rhagor o wybodaeth am y cynnig hwn a mathau eraill o ofal plant ar gael gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd. Mae gan bob awdurdod lleol Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, sy'n cynnig gwybodaeth a chyngor diduedd am ddim i bob rhiant a gofalwr.

## Teithio am ddim a theithio rhad

Er nad oes rhaid i Awdurdodau Lleol gynnig cludiant am ddim ar ôl oedran ysgol gorfodol, mae ganddynt ddisgresiwn i ddarparu cludiant i **ddysgwyr addysg bellach hyd at 18 oed**. Mae Ymchwil y Senedd wedi cyhoeddi **Cludiant rhwng y cartref a'r ysgol - canllaw i etholwyr,** sy'n rhoi rhagor o fanylion.

Os ydych chi'n 16-21 oed ac yn byw yng Nghymru, gallwch wneud cais am **Fy Ngherdyn Teithio**. Gall Fy Ngherdyn Teithio helpu'r rhai sydd rhwng 16 a 21 oed i gael 30% oddi ar docynnau bws wythnosol, misol neu flynyddol.

O 1 Medi 2025, bydd **prosiect peilot** sy'n cael ei gynnal yng Nghymru yn caniatáu i bobl ifanc 16-21 oed brynu tocynnau sengl am £1 neu docynnau diwrnod am £3.

## Prentisiaethau

I'r rhai nad ydynt am fynd i fyd gwaith a hyfforddiant pellach, llwybr ôl-16 arall i ddysgwyr sy'n gadael addysg orfodol yw dilyn prentisiaeth sy'n cyfuno hyfforddiant ymarferol mewn swydd ag astudio.

Mae nifer o brentisiaethau ar gael ar lefelau gwahanol, a all amrywio o brentisiaethau sylfaen i brentisiaethau gradd.

Mae rhagor o wybodaeth am brentisiaethau ar gael ar **wefan Llywodraeth Cymru**.

**Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu teclyn ar-lein i chwilio am brentisiaethau sydd ar gael**.

## Cronfa Family Action Barclays

Er na all myfyrwyr eu hunain wneud cais, gall aelod awdurdodedig o staff (fel arfer cynghorydd myfyrwyr neu gynghorydd lles) mewn coleg addysg bellach a ariennir yn gyhoeddus wneud cais am grant o hyd at £1,000 i fyfyrwyr sy'n astudio ar Lefel 2 neu 3 i helpu teuluoedd â'u hanghenion sylfaenol. Ar hyn o bryd yng Nghymru, dim ond Coleg Gŵyr Abertawe a Choleg Gwent sy'n gymwys i wneud cais. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar **wefan Family Action**.

## Grant Ymddiriedolaeth Thomas Wall

Mae **Ymddiriedolaeth Thomas Wall** yn cynnig grantiau i gefnogi oedolion sy'n byw yn y DU i gael addysg a hyfforddiant a fydd yn gwella eu siawns o gael gwaith cyflogedig.

Mae grantiau o hyd at £1,500 ar gael tuag at ffioedd y cwrs (rhaid i'r cwrs fod yn gwrs galwedigaethol achrededig hyd at Lefel 3) a/neu hyd at £750 ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â gofal plant, teithio a chyfarpar.

Mae'r gofynion cymhwystra ar gyfer grant gan Ymddiriedolaeth Thomas Wall yn cynnwys y canlynol:

- rhaid i chi fod yn 18 oed neu'n hŷn;
- rhaid i chi fod yn wynebu heriau ariannol a heriau eraill, e.e. anabledd, trawma mawr neu ddigwyddiad bywyd, problemau iechyd meddwl, cyfrifoldebau gofalu, yn berson sy'n gadael gofal, wedi ymddieithrio oddi wrth y teulu, yn ddysgwyr Saesneg, â chyfrifoldebau gofal plant;
- rhaid eich bod wedi bod yn ddi-waith am o leiaf 6 mis yn ystod y 2 flynedd diwethaf;
- rhaid bod gennych hawl i weithio ac astudio yn y DU, a rhaid i chi fod wedi byw yn y DU am o leiaf 3 blynedd;
- rhaid i chi fod o aelwyd incwm isel.

Mae rhagor o fanylion am yr hyn sy'n cyfrif fel **aelwyd incwm isel** ar gael ar wefan Ymddiriedolaeth Thomas Wall.

Gallwch **gysylltu ag Ymddiriedolaeth Thomas Wall** drwy ei gwefan.